
Llwybr Arfordir Cymru
Wales Coast Path

@walescoastpath
walescoastpath.gov.uk




# Portmeirion i Traeth Morfa Bychan

**Unwaith i chi adael Borth y Gest, mae cerdded o amgylch y pentir tuag at Draeth Morfa Bychan, yn mynd â chi i gildraethau tywodlyd niferus, sydd mor brydferth, gyda golygfeydd di-ddiwedd yn ôl i lawr Aber Afon Dwyryd tuag at y mynyddoedd, y byddwn i'n dweud eu bod sydd ymhlith y gorau yn yr ardal. Dyma daith gerdded i fwynhau ar ddiwrnod heulog braf.**

*"Does dim diwedd i'r golygfeydd anhygoel ar y daith gerdded hon, gan edrych i fyny Afon Glaslyn, dros y morfa heli o'r cob, gydag Eryri'n gefnlen – mae'n gwneud i chi deimlo fel eich bod mewn ffilm Affricanaidd yn ystod y tymor glawog. Mae harbwr hardd a glan môr pentref hudolus a chudd Borth y Gest yn odidog."*

**RHYS ROBERTS, SWYDDOG LLWYBR ARFORDIR CYMRU**

## Dechrau a Diwedd:
Min y Don i Draeth Morfa Bychan.

## Pellter:
7 milltir/11km.

## Ar hyd y ffordd...
Yn agos at fan cychwyn y daith, fe welwch bentref Eidalaidd hudolus Portmeirion, a ddyluniwyd gan Syr Clough Williams-Ellis. Nid yw'r pentref ar Lwybr Arfordir Cymru, ond mae'n bendant yn werth archwilio ei adeiladau lliwgar a'i lwybrau cerdded coetir.

Yna byddwch chi'n croesi Cob Porthmadog - morglawdd o'r 18fed ganrif i ganiatáu i draffig fynd yn ddiogel ar draws aber peryglus Afon Glaslyn. Gallwch naill ai ei gerdded neu ei feicio fel rhan o lwybr beicio cenedlaethol Lôn Las Cymru.

Peidiwch ag anghofio eich binocwlars - mae'r gors halen y tu ôl i'r Cob yn baradwys i adar. Mae'r daith yn cynnwys Porthmadog, y dref a'r harbwr allforio llechi hanesyddol, cyn dirwyn ei ffordd o amgylch pentir creigiog i Borth y Gest. Mae'n un o bentrefi pysgota bach harddaf Gogledd Cymru ac yn lle gwych i aros i gael tamaid i fwyta a mwynhau'r golygfeydd gwych yn ôl tuag at Borthmadog a thros yr aber i Harlech a'i chastell coronog.

O Borth y Gest byddwch yn dod ar draws cyfres o gildraethau tywodlyd tawel, cyn cyrraedd eangder anferth Traeth Morfa Bychan. Peidiwch â chael eich twyllo gan yr enw Saesneg (Black Rock Sands): mae'r traeth llydan hwn yn flanced o dywod euraidd cain, yn berffaith ar gyfer picnic ac adeiladu cestyll tywod. Byddwch hefyd yn dod o hyd i byllau glan môr ac ogofâu i'w harchwilio, cregyn i'w casglu a mwy o olygfeydd panoramig o'r môr.

## Angen gwybod:
Mae parcio a thoiledau cyhoeddus ar ddau ben y daith. Mae gan Borthmadog a Phorth y Gest ddigonedd o leoedd i stopio ar gyfer coffi, hufen iâ neu rywbeth i fwyta, ynghyd â siopau lle gallwch brynu nwyddau ar gyfer picnic yn un o'r cilfannau diarffordd rhwng Borth y Gest a Thraeth Morfa Bychan.

## Eisiau mynd ymhellach?
Rhowch gynnig ar ein "Taith gerdded deuluol wahanol" ym Mhorth y Gest sy'n cynnig golygfeydd panoramig dros Aber Afon Dwyryd a draw i Fae Ceredigion.